Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
European Agricultural Fund for Rural Development: Europe Investing in Rural Areas

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Coaltown Limited - Canolfan ragoriaeth goffi o safon ar gyfer rhostio, bragu a gweini coffi



**Beth yw nodau'r prosiect?**

Y bwriad oedd creu canolfan ragoriaeth ar gyfer rhostio, bragu a gweini coffi yng Nghymru a thu hwnt. Y nod oedd creu swyddi newydd yn yr ardal leol. Roedd gan Coaltown Limited uchelgeisiau i ddefnyddio eu busnes fel cyfrwng i roi hwb i'r economi leol. Byddai dathlu treftadaeth eu cymuned yn gweithredu fel templed ar gyfer cymunedau eraill. Byddai'n dod â newid cymdeithasol ac economaidd i'w tref enedigol, sef Rhydaman, ac yn dod â diwydiant yn ôl i hen gymuned lofaol.

**Sut y cyflawnwyd y nodau hyn?**

Cafodd dau aelod o staff eu recriwtio. Cynigiwyd cyflogaeth barhaus i Bronwen Tinney ar 30/10/2018 fel Barista a Chynorthwy-ydd Gwasanaethau i Gwsmeriaid. Cyn hyn roedd Bronwen yn ddi-waith. Gwnaeth Coaltown roi cyfle iddi drwy Twf Swyddi Cymru a chynnig cyflogaeth barhaus iddi ar ôl i'r 6 mis ddod i ben.

O fewn ei rôl, cafodd Bronwen ei hyfforddi fel Barista ac fe wnaeth hi sicrhau cysondeb a pharhad fel pwynt cyswllt i bob cwsmer yn ystod y cyfnod pontio. Roedd Bronwen hefyd yn gyfrifol am yr holl gynnwys ar y cyfryngau cymdeithasol, gan gyfleu cynlluniau ar gyfer agor y ganolfan rostio newydd oedd ar y gweill. Yn ogystal â Bronwen, recriwtiwyd Rheolwr Dylunio Graffig ac E-fasnach. Cafodd Nicholas Haimes ei recriwtio i ailfrandio Coaltown cyn agor y ganolfan rostio.

Roedd yn allweddol o ran datblygu a gwireddu gweledigaeth Gordon, Jennine a Scott.

O ailfrandio'r holl fagiau manwerthu i roi profiad gweledol newydd cyflawn i gwsmeriaid ar y wefan, gan sicrhau bod y wefan yn hawdd ei defnyddio ac yn cyfleu hanfod Coaltown.

Datblygodd y ganolfan rostio yn gyflym ac roedd y gwaith gosod yn mynd rhagddo. Gwnaeth gwyliau haf yr Eidal lesteirio cynnydd oherwydd bod ffatri La Marzocco ar gau yn ystod y cyfnod hwn, ond roedd yn gyfle i ganolbwyntio ar agweddau eraill ar y prosiect. Y Swyddfa oedd yr ystafell gyntaf i gael ei chwblhau ac yna'r Platfform Gwpanu a'r Academi.

**Pwy oedd yn rhan o'r prosiect?**

Defnyddiwyd crefftwyr a gwneuthurwyr lleol drwy gydol y prosiect cyfan.

Lle bynnag y bo modd, prynwyd

prynwyd ffitiadau a deunyddiau lleol gan werthwyr hen bethau, seiri maen, a siopau deunyddiau.

**Sut y cafodd y prosiect ei ariannu?**

Cyllid personol y Cyfarwyddwr.

**Gan bwy y cawsoch help a chyngor?**

Landsker.

**Beth fu'r prif gyflawniad hyd yma?**

Cyflawni'r nod o greu a chynhyrchu diwydiant newydd yn eu tref enedigol yn Rhydaman.

**A’r her fwyaf?**

Cynlluniau twf a gafodd eu llesteirio yn sgil COVID-19. Unrhyw awgrymiadau i'r rheini sy'n sefydlu prosiectau tebyg? Dyfalbarhad, penderfyniad, gwytnwch, amynedd a bod yn drefnus o ran anfonebau a chaffael. Gwnewch yn siŵr fod gennych ddealltwriaeth dda o'r canllawiau grant cyn i chi ddechrau.

**Beth nesaf ar gyfer eich prosiect?**

Parhau i agor mwy o fariau Espresso a chynyddu presenoldeb ar-lein.

